Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Practis Gofal Deintyddol Clifton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
## Dyddiad yr arolygiad: 3 Gorffennaf 2023
## Dyddiad cyhoeddi: 3 Hydref 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-840-5
© Hawlfraint y Goron 2023

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Gofal Deintyddol Clifton yn amgylchedd pleserus a chroesawgar a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Roedd y deintyddfeydd yn lân ac yn cynnwys adnoddau digonol.

Roedd yr ardaloedd cymunedol yn darparu cyfoeth o wybodaeth i'r cleifion i'w hannog i ofalu am iechyd y geg/iechyd deintyddol.

Gwnaeth y practis ddarpariaeth dda ar gyfer cleifion sy'n siarad Cymraeg ac ar gyfer cleifion gydag anawsterau symudedd.

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda ar waith, sy'n gweithio'n ddyfal i wella'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd ac a oedd yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion. Roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn yr holiaduron cleifion a gwblhawyd.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Gofal Deintyddol Clifton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 3 Chwefror 2023

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Practis Gofal Deintyddol Clifton yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom y staff yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais, gyfeillgar a phroffesiynol wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys mannau i'r cleifion gael sgyrsiau preifat â'r staff.

Gwelsom fod y safle yn lân, mewn cyflwr da ac yn cynnig amgylchedd pleserus i'r cleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ystyried sut i ddarparu ymhellach ar gyfer dewisiadau iaith y cleifion

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Mynediad da i'r adeilad ac addasiadau i'r rhai ag anawsterau symudedd
- Dywedodd y cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

"Mae'r gofal deintyddol yn dda bob amser ac mae'r staff yn rhoi gwasanaeth da bob amser"

"Staff da iawn, sy'n gwrtais, yn gyfeillgar ac yn gymdeithasol bob amser, ac yn dangos lefelau uchel o broffesiynoldeb"

"Mae staff y dderbynfa yn llawen ac yn hyfryd i sgwrsio â nhw bob amser"

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd y deintyddfeydd a'r ardaloedd yr oedd y cyhoedd yn eu gweld yn lân, yn cael eu cynnal yn dda ac nid oedd peryglon amlwg. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg cyfredol, gan gynnwys ar gyfer diogelwch tân.

Roedd pob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis, sy'n gysylltiedig â defnyddio'r cyfarpar pelydr-x, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd trefniadau ar waith i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-x yn ddiogel.

Roedd gweithdrefnau dihalogi priodol ar waith yn y practis ac roedd yr holl gyfarpar mewn cyflwr da.

Gwelsom fod y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn glir ac ar gael i bob aelod o'r staff.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant mewn dadebru brys ac yn cael hyfforddiant bob blwyddyn

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd safle ac ardaloedd clinigol y practis yn addas ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda
- Roedd trefniadau da ar waith i atal a rheoli heintiau, gan gynnwys ystafell ddihalogi ddynodedig
- Roedd asesiadau a pholisïau risg priodol ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod gan Bractis Gofal Deintyddol Clifton arweinyddiaeth dda a llinellau cyfrifoldeb clir. Roedd y tîm o staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Roedd tystiolaeth fod y practis yn ymrwymedig i wella'i wasanaeth, drwy adolygu ei ffyrdd o weithio ac unrhyw adborth gan gleifion.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd
- Gwella systemau ar gyfer cynnal gwiriadau wrth recriwtio staff newydd

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar gael i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau
- Roedd ymrwymiad i ddatblygiad staff.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

